



Deddf Cofrestru Tir 2002 Cwmpas y cyfarwyddyd hwn

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn rhoi gwybodaeth am y gofrestr a'r hyn y gallwch ddisgwyl ei weld pan fyddwn yn ei chyhoeddi ar ffurf ddwyieithog. Mae'r cyfarwyddyd wedi ei anelu at drawsgludwyr a chynghorwyr cyfreithiol eraill ynghyd â'r cyhoedd a dylech ddehongli cyfeiriadau atoch 'chi' felly. Bydd staff y Gofrestrfa Tir yn cyfeirio ato hefyd.

Cynllun Iaith Gymraeg y Gofrestrfa Tir – ffurf y gofrestr

Diweddariad – Mae'r cyfarwyddyd hwn yn disodli argraffiad Mehefin 2005. Newidiwyd adran 2 a dilëwyd adran 7 yr argraffiad blaenorol o ganlyniad i newid ein hymarfer ar gyfieithu cofnodion y gofrestr. Dilëwyd adran 9 yr argraffiad blaenorol o ganlyniad i welliannau i'n systemau cyfrifiadurol.

Manylion cysylltu

Ar gyfer ymholiadau cwsmeriaid ac i gael y cyhoeddiad hwn ar ffurf wahanol cysylltwch â'n Cefnogaeth i Gwsmeriaid ar customersupport@landregistry.gsi.gov.uk neu ffoniwch 0844 892 1122 am wasanaeth Cymraeg, neu 0844 892 1111 am wasanaeth Saesneg, o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm. Cost galwadau yw 3c y funud o linellau tir BT. Gall cost galwadau symudol a rhwydweithiau eraill amrywio. Nid yw'r Gofrestrfa Tir yn derbyn unrhyw gyllid o'r galwadau hyn.

I gael copi o hwn a'n holl gyfarwyddiadau eraill, yn ddi-dâl:
- darllenwch/llwythwch y cyfarwyddiadau i lawr yn Gymraeg a Saesneg o www.cofrestrfatiir.gov.uk
- cysylltwch â'n Cefnogaeth i Gwsmeriaid.

1 Cyflwyniad

Mae gan y Gofrestrfa Tir Gynllun Iaith Gymraeg a baratowyd o dan a.21(3) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a derbyniodd gymeradwyaeth lawn Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym Mawrth 1998. Mae'r cynllun yn darparu y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal wrth ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r newidiadau a amlinellir yn adran 2 *Beth yw'r newidiadau a phryd y daethant i rym?* yn deillio o'r egwyddor hon.

2 Beth yw'r newidiadau a phryd y daethant i rym?

Daeth y newidiadau a wnaed i gydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg i rym ar 1 Hydref 2001 ac roeddynt fel a ganlyn.

- Rydym nawr yn cynhyrchu templed y gofrestr ar ffurf ddwyieithog. Mae'r penawdau a'r wybodaeth safonol (er enghraifft, 'Cofrestr Eiddo' neu 'Teitl Llwyd') yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar bob cofrestr teitl yng Nghymru.
- Mae cofnodion unigol y gofrestr bellach yn ymddangos yn iaith (Cymraeg neu Saesneg) y ddogfen wreiddiol y seiliwyd hwy arnynt. Felly, lle mai'r

Gymraeg yw iaith y dogfennau gwreiddiol, mae'r cofnodion yn Gymraeg; lle mai Saesneg yw iaith y dogfennau gwreiddiol, mae'r cofnodion yn Saesneg. Lle nad oes dogfen, mae cofnod y gofrestr yn adlewyrchu dewis iaith y ceisydd a gyflwynodd y cais. Am ragor o wybodaeth gwelwch adran 4 *Beth am gofnodion nad ydynt yn deillio o weithred?*

3 A fydd pob cofnod yn ddwyieithog?

Na – dim ond templed y gofrestr fydd yn ddwyieithog. Iaith y dogfennau gwreiddiol fydd yn penderfynu iaith cofnodion y gofrestr.

4 Beth am gofnodion nad ydynt yn deillio o weithred?

Lle nad oes dogfen – er enghraifft pan fo cofnod o natur gyffredinol neu'n cyfeirio at sefyllfa'r cynllun teitl yn unig – bydd iaith y cofnod hwnnw'n adlewyrchu dewis iaith y ceisydd naill ai yn y cais cyfredol, neu os cynhyrchir y cais cyfredol gan y Gofrestrfa Tir ei hunan, ar sail dewis iaith y perchennog cofrestredig cyfredol.

5 A fydd y disgrifiad eiddo yn ddwyieithog?

Na fydd. Y cyfeiriad swyddogol a gedwir yng nghronfa ddata ein disgrifiad eiddo cyfrifiadurol, sy'n seiliedig ar ffeiliau cyfeiriadau Swyddfa'r Post, fydd y disgrifiad eiddo (a nodir yn y gofrestr eiddo). Gall y cyfeiriad ar gyfer gohebu yn y gofrestr perchnogaeth, sy'n bersonol i'r perchennog unigol, fod yn Gymraeg naill ai'n unol â dewis iaith y ceisydd neu ar gais. Sylwch, fodd bynnag, fod hyn yn gymwys i eiddo yng Nghymru'n unig. Am ragor o wybodaeth gyffredinol, yn enwedig o ran effaith Rheolau Cofrestru Tir 2003, gwelwch Gyfarwyddyd Ymarfer 55 – *Cyfeiriad ar gyfer gohebu*.

6 Beth am geisiadau wedi eu seillio ar ddogfennau Cymraeg a gyflwynwyd cyn 1 Hydref 2001?

O 1 Hydref 2001, mae Cofrestrfa Tir Swyddfa Cymru wedi argraffu pob cofrestr ar dempled cofrestr ddwyieithog heb ystyried y dyddiad y crëwyd y gofrestr ei hunan. Cyfieithwyd cofnodion yn deillio o ddogfennau Cymraeg a gyflwynwyd cyn 1 Hydref 2001 i'r Saesneg ar gyfer eu gosod ar y gofrestr. Nid yw'n fwriad diwygio'r cofnodion hynny.

7 Mae fy eiddo yn Lloegr. A oes modd imi gael fy nghofrestr yn Gymraeg?

Nac oes. Mae'r newidiadau a nodwyd uchod yn effeithio ar gofrestri tir yng Nghymru yn unig. O ganlyniad, ni fydd modd i Gymry alltud sy'n byw yn Lloegr neu Gymry sy'n berchen ar dir yn Lloegr gael cofrestri eu tir Seisnig ar dempled dwyieithog. Ni fydd modd ychwaith creu cofnodion Cymraeg ar y cofrestri hynny.

8 Beth am benawdau neu allweddi ar gynlluniau teitl?

Nid yw'n fwriad cyfieithu penawdau neu allweddi ar gynlluniau teitl ar hyn o bryd.

9 Â phwy y dylwn gysylltu am wybodaeth bellach neu gymorth?

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r newidiadau hyn at:

Eleri Sparnon Jones
Cydlynnydd y Gymraeg
Cofrestrfa Tir Swyddfa Cymru
Tŷ Cwm Tawe

Ffordd y Ffenics
Llansamlet
Abertawe SA7 9FQ
(DX 82800 Swansea 2)

Ffôn: 01792 355169

ebost:
elery.jones@landregistry.gsi.gov.uk

10 Sylwadau cyffredinol

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch unrhyw un o'n cyfarwyddiadau, anfonwch hwy i:

Grŵp Newid Cofrestru
Cofrestrfa Tir
Lincoln's Inn Fields
Llundain
WC2A 3PH
(DX1098 London/
Chancery Lane)

Gallwch gael copïau o hwn a'n holl gyfarwyddiadau yn ddi-dâl o unrhyw un o swyddfeydd y Gofrestrfa Tir neu gallwch eu llwytho i lawr yn ddi-dâl o'n gwefan.

Polisi ymgynghorol y Gofrestrfa Tir

Rydym yn cynnig cyngor i'n cwsmeriaid trwy gyfrwng ein cyhoeddiadau a gwasanaethau ymholiadau a thrwy'r gwaith beunyddiol o brosesu ceisiadau.

Rydym yn darparu gwybodaeth ffeithiol, gan gynnwys copïau swyddogol o gofrestri, cynlluniau teitl a dogfennau, chwiliadau a manylion am ein ffurflenni a ffioedd.

Rydym yn cynnig cyngor ynglŷn â'n trefnau sy'n esbonio sut mae'r system o gofrestru tir yn gweithio a sut i gyflwyno ceisiadau sy'n gywir. Mae hyn yn cynnwys:

- cyngor cyn cyflwyno cais, lle mae'r ceisydd yn gofyn amdano
- lle bo cais yn ddiffygiol, cyngor ynglŷn â natur y broblem a beth y gellir ei wneud, os rhywbeth, i'w hunioni
- gwasanaeth cymeradwyo cynlluniau ystad a dogfennau cofrestru tir penodol eraill.

Mae'r cyngor y gallwn ei ddarparu yn gyfyngedig. Ni fyddwn yn darparu cyngor cyfreithiol.

Mae hyn yn golygu:

- na fyddwn yn cymeradwyo'r dystiolaeth i'w chyflwyno i gefnogi cais i gofrestru cyn inni dderbyn y cais
- na fyddwn yn cynnig cyngor ynglŷn â pha gamau y dylech eu cymryd oni bai ei fod yn berthnasol i'n trefnau
- na fyddwn yn cymeradwyo ymgynghorydd proffesiynol ond gallwn esbonio sut y gallwch ddod o hyd i un.

Rydym yn darparu cyngor am geisiadau go iawn yn unig, nid am amgylchiadau damcaniaethol. Ni fyddwn yn mynegi barn am faterion lle bo'r gyfraith yn gymhleth neu'n aneglur oni bai bod y cwestiwn yn berthnasol i gais i gofrestru sy'n cael ei brosesu.

Wrth ddarparu'r wybodaeth ffeithiol hon a chyngor ynglŷn â'n trefnau byddwn yn:

- ymddwyn yn ddiudedd
- cydnabod y gall ein geiriau effeithio ar eraill

- osgoi creu gwrthdaro rhwng buddion.

Gwybodaeth yn y cyfarwyddyd hwn

Darparu cyfarwyddyd cyffredinol am drefnau a pholisïau'r Gofrestrfa Tir yw diben y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn. Fe'i bwriedir fel canllaw yn unig ac nid yw'n ymdrin â phob sefyllfa a all godi. Nid yw chwaith yn cyfyngu ar allu'r Gofrestrfa Tir i weithredu fel y gwêl yn dda, pan fo'n briodol gwneud hynny, o fewn y ddeddfwriaeth cofrestru tir.

Peter Collis
Prif Gofrestrydd Tir

© Hawlfraint y Goron 2008 Cofrestrfa Tir
Nid yw i gael ei atgynhyrchu heb ganiatâd Yr Uned Ffurflenni, Cofrestrfa Tir (yn ôl awdurdod dirprwyedig Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi), Lincoln's Inn Fields, Llundain WC2A 3PH

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan:
Cofrestrfa Tir, Cyhoeddi Corfforaethol y Brif Swyddfa, Lincoln's Inn Fields, Llundain WC2A 3PH